YSGOL BRYNREFAIL

CYSTADLEUAETH FOROL YSGOLION 2010

Bu llwyddiant ysgubol i'r tîm a gynrychiolodd Ysgol Brynrefail yn y gystadleuaeth gyntaf o'i math yng Ngogledd Cymru. Cafodd y tîm ei goroni yn Brif Bencampwyr y gystadleuaeth, a chafodd ei chynnal ym Mhlas Menai ar ddydd Llun, Mehefin 21ain 2010.

Derfel Thomas(9O),Gerwyn Jones (9S),Cai ap Ieuan(9O),Ffion Jones(9S)

Cystadleuaeth oedd hon ble roedd angen i dimau ddylunio ac adeiladu cwch bychan oedd yn cael ei phweru gan yr haul drwy baneli solar.Cynhyrchwyd y cwch drwy ddefnyddio plastig polystyren a'r broses o ffurfio â gwactod. Death y tim yn drydedd yn y ras yn erbyn cystadleuaeth ffyrnig iawn yn erbyn Ysgol Caergybi,Ysgol Syr Huw owen ac Ysgol Ffriars.Daethant yn gyntaf yn yr adran ar gyfer gwaith tim ac, o ganlyniad I sgorio yn uchel ym mhob adran, cawsant eu coroni yn brif bencampwyr ar gyfer 2010.